Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

# Gweminar CFfGGC Allbynnau a Chanlyniadau

17 Medi 2024

# Rhaglen

- Croeso
- Trosolwg o'r Allbynnau a Chanlyniadau
- Diffiniadau a thystiolaeth awgrymedig
- Siamplau
- Eglurhad Llywodraeth y DU
- Cwestiynau a ofynnir yn aml
- C&A
- Crynodeb ac Chau

# Holi ac Ateb – Cwestiynau  o flaen llaw

Teipiwch eich cwestiynau yn y sgwrs (chat)

Ychwanegwch unrhyw gwestiynau yn ystod y cyflwyniad i'r sgwrs (chat) a byddwn yn eu hateb yn ystod y darn holi ac ateb.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

wrexham
wrecsam

# Trosolwg Allbynnau a Chanlyniadau


| **Allbynnau** | **Canlyniadau** |
| --- | --- |
| Canlyniad uniongyrchol i weithgaredd/prosiect | Effaith enhangach y gweithgaredd neu’r prosiect (fel arfer yn y tymor canolig neu ar ddiwedd) |

- Mae’n ofynnol i dderbynwyr grant adrodd (yn unol â’u Cytundeb Ariannu Grant) ar gyrraedd allbynnau a chanlyniadau eu prosiect fel rhan o’r broses hawlio.

- Ar gyfer y diffiniad, mesur a'r mathau o dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer pob allbwn a chanlyniad, cyfeiriwch at - Atodiad 1 – Gofynion Tystiolaeth Awgrymedig.

- Dylech dim ond adrodd ar gyflawni allbynnau a chanlyniadau'r prosiect pan fydd gennych y dystiolaeth i'w cefnogi.

# Trosolwg o Allbynnau a Chanlyniadau



# Diffiniadau a thystiolaeth awgrymedig

- Mae Atodiad 1 yn nodi'r math o dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn bodloni diffiniad Llywodraeth y DU o bob dangosydd allbwn a chanlyniad.

- Nid yw'n rhestr gynhwysfawr ond mae'n anelu at ddarparu cysondeb ar draws y rhanbarth. Bydd mathau eraill o dystiolaeth yn cael eu hystyried ond mae angen cytuno arnynt o flaen llaw.

- Os yw'r dystiolaeth yr hoffech ei chadw yn wahanol i'r rhestr, rhowch wybod i ni a thrafodwch gyda'ch Tim SPF Lleol.

- Wrth wirio'r hawliadau, byddwn yn gofyn i chi nodi'r tystiolaeth sydd ganddo chi mewn lle i gefnogi'r ffigyrau sy'n cael ei adrodd. Byddwn yn disgwyl gweld y tystiolaeth wrth gwiro'r sampl.

# Siampl ffurflen hawlio

Siampl_SPF-Templed hawlio Aml Sir Cym.xlsx

# Cwestiynau a ofynnir yn aml:

C. A allwch chi hawlio'r cwrs Sgiliau Sylfaenol a cwrs Sgiliau Bywyd, a hefyd, hawlio cymhwyster?
A Gallwch, os yw'r cwrs yn bodloni'r diffiniad o Sgiliau Sylfaenol a Sgiliau Bywyd ac wedi'i achredu yna mae'n dderbyniol i hawlio'r 3 allbwn gan ei fod yn dangos gwahanol elfennau ar wahân o daith y cyfranogwr.

C A allwch chi hawlio ardal o welliannau fel parth cyhoeddus a mannau gwyrdd?
A Na, dylech hawlio'r cyrhaeddiad o dan y dangosydd mwyaf priodol yn unol â'r diffiniad.

C A all cyngor a roddir i fenter gan Angel-fuddsoddwr gael ei gyfrif fel Mentrau sy'n derbyn Angel-fuddsoddiad?
A Gallwch, bydd angen datganiad gan yr Angel-fuddsoddwr. Dylai hyn fanylu ar y cyngor a roddwyd a gwerth ariannol eu hamser ar gyfer darparu hyn.

C A oes angen i'r dystiolaeth a restrir yn yr hawliad, gwmpasu'r hawliad penodol hwnnw yn unig neu ar gyfer yr holl hawliadau
A Os yw'r dystiolaeth yn wahanol i'r hyn a ddarparwyd yn flaenorol, yna bydd angen i chi restru unrhyw dystiolaeth ychwanegol.

C  Sut fyddech chi'n rhoi tystiolaeth mewngofnodi i weithdy (ar gyfer cyfrif nifer o bobl cyrhaeddwyd) tra'n cadw anhysbysrwydd? Os caiff ei ddewis i'w wirio.

A  Gallwch olygu unrhyw wybodaeth bersonol a anfonwch atom. Efallai bod gennych rhif adnabod neu rhif cyfrif unigryw y gallwch ei gyflwyno.  Bydd angen i ni weld y ddogfen wreiddiol yn ystod unrhyw ymweliad monitro.

C  Os ydym yn cynnal rhaglen grantiau gyda'n cyllid, ac un o dargedau ein hymgeiswyr yw 100 o arolygon, a ydych yn hapus i ni gasglu sampl gan ein hymgeisydd, neu a fyddech chi angen i ni gasglu pob un o'r 100 arolwg oddi wrthynt i allu eu hanfon atoch?

A  Ni fyddem yn disgwyl gweld 100 o arolygon, ond byddwn angen i chi gadarnhau eich bod wedi gweld pob un o'r 100 gan yr ymgeisydd grant ac yn cytuno â'r ffigwr.

C  A oes unrhyw newyddion am estyniad amser?

A  Mae modd I brosiectau SPF yng Ngogledd Cymru gyflwyno cais i ymestyn ei prosiectau tu hwnt i 31 Rhagfyr 2024. Mi fydd ceisiadau I ymestyn yn cael eu hystyried fesul achos a dim ond drwy eithriad, ble mae achos clir y bydd mwy o amser yn lliniaru risg o danberfformio (o ran gwariant a/neu canlyniadau).  Yn y lle 1af mae’n rhaid I chi drafod gyda’ch Tim SPF Lleol/Buddug ar gyfer Prosiectau Aml Sir.  Mae mwy o wybodaeth ar gael ar y wefan ranbarthol.

C Beth yw'r meini prawf wrth weithio mewn partneriaeth â phrosiectau SPF allanol? A yw'r ddau barti yn gallu hawlio cyrhaeddiad os yw'r canlyniadau a'r allbynnau'n wahanol?

A Ydi, gall y ddau brosiect hawlio cyrhaeddiad os yw'r canlyniadau a'r allbynnau'n wahanol ar gyfer pob prosiect.

C Rydych chi wedi dweud y dylem ddim ond adrodd ar allbynnau a chanlyniadau y mae gennym dystiolaeth ar eu cyfer ar y pryd. A yw hyn yn golygu y gallai'r gwaith fod wedi'i wneud yn ystod cyfnod hawlio blaenorol ond gan nad oes gennym yr holl dystiolaeth, yna gellir ei chofnodi mewn hawliad yn y dyfodol?

A Ydy, Pan fyddwn yn cynnal sampl dilysu ar gyfer allbynnau a chanlyniadau, rydym eisio i chi gyflwyno'r holl dystiolaeth i ni.

C Nifer y bobl sy'n profi llai o rwystrau strwythurol i gyflogaeth a sgiliau. Pa dystiolaeth sydd ei hangen?

A Datganiad cyfranogwr / gwerthusiad ôl-gymorth/holiadur

C Pa mor aml a phryd y gallwn ddisgwyl derbyn cais am samplau dilysu?

A Gwneir sampl dilysu yn dilyn hawliad a gyflwynwyd. Ystyrir gwiriadau blaenorol a brofwyd wrth ddewis sampl.

C Os yw'r 'run bobl yn mynychu digwyddiadau gwahanol a yw'n cael ei ystyried yn cyfrif dwbl, os ydym yn adrodd ar yr 'run bobl sy'n mynychu'r gwahanol ddigwyddiadau yn erbyn ymyriadau Lluosi?

A Yn ddelfrydol, nid ydym am i chi adrodd ar yr 'run bobl sy'n mynychu digwyddiadau Lluosi, oni bai bod yr allbwn neu'r canlyniad rydych chi'n ei hawlio yn wahanol i'r 'run bobl hynny. Mae Llyw y DU wedi cadarnhau nad yw'n cael ei ystyried yn gyfrif dwbl os yw'r gweithgaredd yn sbarduno allbwn neu ganlyniad gwahanol.

C A allwn ni gadw cofnod digidol ar gyfer y cyfnod dogfennaeth 10 mlynedd neu oes angen i ni argraffu'r holl ddogfennau?

A Nid oes angen i chi argraffu'r holl ddogfennau, mae cofnodion digidol yn dderbyniol cyn belled â'u bod yn cael eu cadw ar weinydd addas fel Cloud, a bod modd cael mynediad atynyt os bydd unrhyw archwiliadau yn y dyfodol yn gofyn am wybodaeth.

C Ymholiad Lluosi – A all dysgwyr sydd eisoes â chymhwyster mathemateg L2 gael mynediad i ddarpariaeth Lluosi.

A Bydd- ond bydd angen asesiad Sgiliau i benderfynu bod ganddynt sgiliau mathemateg swyddogaethol o dan L2 a bydd Lluosi yn eu helpu i symud ymlaen i waith, yn eu gyrfa neu ymlaen i lefelau uwch o hyfforddiant. Ni ddylid caniatáu i ddysgwyr ailsefyll y cymwysterau sydd ganddynt eisoes.

C A oes modd cyfrif yr 'run allbwn o dan sawl ymyrraeth? h.y. Nifer o bobl y cyrrhaeddwyd

A Oes, gallwch gyfrif yr run allbwn o dan sawl ymyrraeth os ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer pob ymyriad.

**ENGHRAIFFT 1:**
Nifer y mentrau sy'n derbyn grantiau – Nifer y mentrau
Nifer y mentrau sy'n derbyn cefnogaeth dim yn ariannol – Nifer y mentrau
**DIM** yn cael ei ystyried fel cyfrif dwbl os yw diffiniad yr allbwn yn wahanol i'r ddau, ac yn cynnig gwahanol fathau o gefnogaeth

**ENGHRAIFFT 2:**
Nifer y bobl sy'n mynychu sesiynau hyfforddi – Nifer y bobl
Nifer y bobl a gyrhaeddodd – Nifer y bobl
**DIM** yn cael ei ystyried fel cyfrif dwbl os yw'r bobl yn bodloni'r meini prawf ar gyfer pob allbwn

**ENGHRAIFFT 3**
Nifer cynyddol o oedolion sy'n cyflawni cymwysterau mathemateg hyd at a gan gynnwys Lefel 2 – Nifer yr oedolion
Nifer cynyddol o oedolion sy'n cymryd rhan mewn cymwysterau mathemateg a chyrsiau hyd at, ac yn cynnwys cyfwerth â Lefel 2 – Nifer yr oedolion
**YN** cael ei ysytried fel cyfrif dwbl os darperir cymorth o fewn yr un prosiect

## Diffiniadau o Allbynnau a Chanlyniadau Llywodraeth Y DU – Mawrth 2023

Os bydd yr uned mesur yn wahanol, ni ystyrir bod hynny'n gyfrif dwbl. Y nod yw mesur elfennau gwahanol allbwn neu ganlyniad. Er enghraifft, gall a dylai llwybr beicio newydd gael ei recordio o dan ddangosyddion allbwn 'cyfanswm hyd y llwybrau beicio newydd neu rai wedi'u gwella' a 'nifer y llwybrau beicio newydd neu rai wedi'u gwella'.

Gall buddiolwr prosiect, e.e. unigolyn neu fusnes, greu mwy ag un allbwn neu ganlyniad i'w gyfrif yn erbyn dangosyddion gwahanol. Er enghraifft, gall un busnes gael grant ariannol ynghyd â math arall o gymorth. Yn y sefyllfaoedd hyn, dylid eu cofnodi ym mhob allbwn neu ganlyniad perthnasol ac ni fyddant yn cael eu hystyried yn gyfrif dwbl.

# C&A

Codwch law os ydych yn dymuno gofyn cwestiwn

Teipiwch gwestiynau yn y sgwrs (chat)

# Crynodeb a chau

- Cymerwch amser i adolygu'r diffiniadau a'r mathau o dystiolaeth a awgrymir i gefnogi targedau cymeradwy eich allbynnau a chanlyniadau

- Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw bryderon ynglyn a'r tystiolaeth neu gyrraedd eich targedau

- Defnyddiwch yr adroddiad cynnydd i gadarnhau pa fesurau rydych chi'n eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion/pryderon.

- Cadwch restr lawn o'r dystiolaeth a ddelir i gefnogi'r cyflawniadau

- Mae gweminar Hawliadau wedi drefnu ar gyfer 24/09/24

# Gwefan newydd

Mae Cymorth i Brosiectau ar gael ar ein gwefan newydd:

[www.FfyniantGyffredinGogledd.cymru](http://www.FfyniantGyffredinGogledd.cymru)

Os ydych angen y sleidiau mewn fformat gwahanol, gadewch i ni wybod.